



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ardal Penmaenrhos


Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ebrill 2012

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

FFURFLEN COFNODI ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

Enw'r Cynllun	Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Cam 2.4 Ardal Penmaenrhos		
Y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y cynllun	Gwyn Roberts, Arweinydd y Cynllun		
Enw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen asesiad effaith	Damian Hughes, Rheolwr y Cynllun / Bethan Lewis, Cydlynnydd y Cynllun		
Adran	Gwasanaethau Addysg	Dyddiad yr Aseiad	02/04/2012

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB WEDI'I LENWI GAN		CANLYNIAD / GWEITHREDU A GYTUNWYD GAN BENNAETH GWASANAETH	
Dyddiad	17/10/2012	Dyddiad	17/10/2012
Enw	Damian Hughes <i>(Project Manager)</i>	Enw	Geraint James <i>(Statutory Head of Education Services)</i>
Llofnod		Llofnod	

CAM UN – PRIF NOD AC AMCANION Y CYNLLUN

Sylwer – Yn yr adran hon dylech benderfynu pwrpas a nod y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth, pwy sy'n elwa a phwy yw'r prif randdeiliaid.

1. Pa fath o gynllun ydyw?

Bodoli

Newydd

Arfaethedig

Newydd / Diweddarwyd

(Rhowch gylch fel bo'n briodol)

2. Beth yw nod gyffredinol y cynllun ?

Gan gymryd i ystyriaeth y strategaeth a fabwysiadwyd gan Gabinet Conwy ar 26 Hydref 2010, prif nod y cynllun yw:

- bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n deg fel bod holl blant y sir yn elwa
- bod ysgolion cynradd yn addas i gyfarfod datblygiadau cwricwlwm newydd
- parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys yn cynnwys yr holl elfennau, ar gyfer pob grŵp oedran
- bod nifer priodol o leoedd yn ysgolion cynradd Conwy
- arweiniad effeithiol yn ysgolion Conwy, ac
- ysgolion bro.

3. Beth yw'r prif amcanion ?

Wrth weithio i gyfarfod y safonau a gytunwyd ar gyfer addysg mewn ysgolion cynradd fel y nodwyd yn y saith blaenoriaeth allweddol, bydd Conwy yn mesur llwyddiant y cynllun trwy'r amcanion canlynol:

Amcan 1 – Bod y gwariant a ragwelwyd fesul disgybl ymhob un o ysgolion Conwy (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet ymhob ardal*) o fewn goddefiad cytunedig cyfartaledd adolygedig Conwy, erbyn diwedd Cam 2.

Amcan 2 - Holl ysgolion cynradd Conwy a arolygwyd o fewn blwyddyn academiaidd yn cael eu barnu gan ESTYN i fod o leiaf yn ddigonol yn y tri chwestiwn allweddol.

Amcan 3 - Bod y canran o leoedd gwag a ragwelwyd mewn ysgolion cynradd unigol (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet ymhob ardal*) yn llai na 25%, a llai na 10% ar draws y sector, erbyn cam 2 (agenda cenedlaethol).

Amcan 4 - Y canran gor gapasiti ragwelwyd mewn ysgolion cynradd unigol (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet*) yn parhau'n llai na 10%, erbyn Cam 2 (agenda cenedlaethol).

4. Pwy ddylai elwa/gael ei helpu gan y cynllun (rhanddeiliad)?

Plant a phobl ifanc Conwy.

5. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghori / cylchoedd diddordeb?

Plant a phobl ifanc
Rhieni
Llywodraethwyr
Holl staff yr ysgol
Ardaloedd a thrigolion lleol
Yr esgobaeth
Mannau cyn ysgol
Grwpiau iaith Gymraeg
Aelodau

CAM 2 - YSTYRIED YR WYBODAETH SY'N BODOLI A BETH MAE'N EI DDWEUD

Yn yr adran hon darparwch fanylion am gydraddoldeb sy'n bodoli a gwybodaeth defnyddiwr gwasanaeth.

6. Beth a wyddoch yn barod am berthnasedd y polisi i bob ysgol? Beth yw'r prif faterion sydd angen i chi eu hystyried ? (hefyd, gweler yr Asesiad Cydraddoldeb Perthnasedd)

Ysgol Babanod Penmaenrhos

Cydraddoldeb	Perthnasedd y polisi / swyddogaeth i gydraddoldeb
Hil	<p>Y Sefyllfa Bresennol: (PLASC 2012) Yn Ysgol Babanod Penmaenrhos mae 98% o ddisgyblion sydd dros 5 oed yn 'Wyn Prydeinig'. Mae'r 2% sy'n weddill yn wybodaeth na chafwyd eto.</p> <p>Dywed data PLASC 2012 bod y mwyafrif o ddisgyblion (55.40%) Ysgol Babanod Penmaenrhos yn 'Brydeinig'. Y nifer o ddisgyblion 'Cymreig' yn yr ysgol yw 35.40%, a'r gweddill, 9.20% yn 'Saeson'.</p> <p>Dywed adroddiad arolwg Estyn Mehefin 2011 bod <i>"Bron i bob disgybl yn dangos parch, gofal a chonsyrn am ei gilydd ac yn ymwneud yn dda iawn gyda'u hathrawon a staff eraill. Mae gan yr ysgol ethos hollol gynhwysol, sy'n cymryd ystyriaeth o gefndiroedd disgyblion unigol. Mae'n amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn, yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl."</i></p> <p>Yn seiliedig ar ffigyrau PLASC Ionawr 2012, nid oes disgyblion yn bresennol yn Ysgol Penmaenrhos sy'n cael cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.</p> <p>(Ystadegau Medi) Dros y tair blynedd diwethaf nid yw Ysgol Penmaenrhos wedi nodi achos o fwlio oherwydd hil.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn darparu cefnogaeth i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf trwy'r tîm 'Saesneg fel iaith Ychwanegol' (darparwyd mewn partneriaeth ag Awdurdod Sir Ddinbych).</p> <p>Mae gan Gonwy ganllawiau a threfn ardderchog yng nghyd-destun "gwrth fwlio", gyda strategau effeithiol i ganfod, ymyrryd a chofnodi achosion o fwlio. Canolbwyntiodd cynhadledd hyfforddi rhagweithiol i gydlynwyr gwrth fwlio ar "weithio efo'n gilydd" i drin materion gwrth fwlio yn y sector gynradd tra bo cynrychiolwyr uwchradd yn canolbwyntio ar e-ddiogelwch, a materion homoffobig ac aflonyddu rhywiol.</p>

<p>Anabledd</p>	<p>Y Sefyllfa Bresennol: (PLASC 2012) Yn bresennol mae 16 o ddisgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cael peth cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae anghenion y disgyblion hyn yn amrywiol ac yn y categorïau canlynol: 'Gweithredu Ysgol', 'Gweithredu Ysgol a Mwy' a 'Datganiad o Anghenion Addysgu Arbennig'. O'r 16 disgybl sy'n bresennol yn cael cefnogaeth, mae 11 yn fechgyn a 5 yn ferched.</p> <p>Mae gan Ysgol Babanod Penmaenrhos ganolfan/uned adnodd ADY ar y safle.</p> <p>Yn Ysgol Babanod Penmaenrhos, nid oes disgyblion dan bump oed sy'n bresennol yn cael cefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan Wasanaeth ADY y Cyngor chwe maes gwasanaeth rhyng-gysylltiedig: y Tîm Cefnogaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Synhwyrdd/y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd / athrawon Cwricwlwm Ymgynnwys, y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia), y Gwasanaeth Cymorth Addysgu, Y Gwasanaeth Anhwyllder Sbectrum Awtistig, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, sy'n ymroddedig i ddatblygu polisiâu ac ymarferion sy'n sicrhau cydraddoldeb cyfle a mynediad; diogelu disgyblion sy'n agored i niwed; a chanolbwyntio ar godi cyrhaeddiad i bob dysgwr a chynyddu ymwneud ag â'u hysgol a'u bro (Ymgynnwys a Cefnogaeth Disgybl). Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i saith ysgol uwchradd, 60 ysgol gynradd, un ysgol arbennig a chwe uned cyfeirio disgyblion.</p>
<p>Rhyw</p>	<p>Y Sefyllfa Bresennol: (PLASC 2012) Mae gan Ysgol Babanod Penmaenrhos 46 disgybl llawn amser yn bresennol, sef 26 o ferched a 20 o fechgyn. Mae gan yr ysgol 19 disgybl rhan amser, 10 bachgen a 9 merch.</p> <p>Dywed adroddiad Arolwg Estyn 2011 "Yn gyffredinol, mae canran uwch o ferched na bechgyn yn cyrraedd y lefel tri uwch mewn Saesneg a mathemateg." Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn yr ysgol.</p> <p>Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio'n well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir ei gymharu â data a roddwyd gan Gonwy ar lefel sirol a Chymru gyfan. Yn asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 1 yn 2011, roedd merched a bechgyn yn cyflawni'r un canlyniadau, roedd merched a bechgyn yn Ysgol Babanod Penmaenrhos yn tanberfformio o gymharu â chyfartaledd sirol a chenedlaethol; sy'n gweld merched yn cyflawni'n uwch na bechgyn ar lefel sirol a chenedlaethol.</p> <p>Strategau Cefnogi: Cedwir golwg ar berfformiad yn ôl rhyw ar lefel pwnc ac mae camau yn cael eu symud ymlaen trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg i drin unrhyw ofod, cyfeirio cefnogaeth at y maes pwnc angenrheidiol.</p>

Oed	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Dywed data PLASC Ionawr 2012 bod 65 disgybl yn mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos, mae 19 o dan 4 oed yn mynychu'n rhan amser, 30 yn 4 a 5 oed yn mynychu'r dosbarth derbyn yn llawn amser gyda'r 16 disgybl 6 oed sy'n weddill yn mynychu'n llawn amser.</p> <p>Ni roddir gwybodaeth a ystyrir yn 'sensitif' e.e. ethnigrwydd, cenedl, am blant dan 5 oed, yn unol ag argymhellion cenedlaethol.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 – 16 oed.</p>
Crefydd a Chredo	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae holl ysgolion Conwy a'u disgyblion yn cynnal addoliad dyddiol, ac mae addysg grefyddol yn cyfri am 5% o amser cwricwlwm i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 - 4.</p> <p>Nid yw Ysgol Babanod Penmaenrhos yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yng nghredo crefyddol disgyblion. Yn Ysgol Babanod Penmaenrhos, nodir nad oes gan y mwyafrif o ddisgyblion (57%) 'ddim crefydd', gyda 34% yn 'Gristnogion'. Mae'r 9% sy'n weddill yn 'Fethodistiaid', 'crefydd arall' neu 'wybodaeth wedi'i wrthod'.</p> <p>Dywed adroddiad Arolwg Estyn 2011 bod Ysgol Babanod Penmaenrhos yn llwyddiannus wrth wneud eu disgyblion yn fwy ymwybodol o grefydd a chredo gan ddweud "Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda."</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fod â phwyllgor sefydlog (CYSAG) i gadw golwg ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig Add. Gref.</p>
Tueddiad Rhywiol	Amherthnasol
Yr Iaith Gymraeg	Gorffennwyd ' <i>Asesiad Effaith Iaith</i> ' llawn ar gyfer ardal Penmaenrhos.
Arall (nodwch) Cymdeithasol- economaidd	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd yn yr '<i>Asesiad Effaith Cymunedol</i>' a wnaed ar gyfer ardal Penmaenrhos.</p> <p>Yn bresennol mae gan 29 o ddisgyblion hawl i brydau am ddim yn Ysgol Babanod Penmaenrhos, gyda 26 yn cael pryd am ddim ar ddiwrnod cyfrifiad PLASC. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod ysgolion mewn teuluoedd gan gymryd i</p>

ystyriaeth ddangoswyr amddifadedd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw golwg a gwerthuso perfformiad ysgol o fewn y teuluoedd hyn er mwyn cyfeirio cefnogaeth yn briodol er lleihau'r bwlch amddifadedd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant LICC.

Mae arolwg 2011 Estyn yn amlinellu sefyllfa Ysgol Babanod Penmaenrhos mewn perthynas â'r 'teuluoedd ysgolion' a nodir uchod. Dywed wrthym "O gymharu ag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o brydau ysgol am ddim, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2010, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf.

Ysgol Tan y Marian

Cydraddoldeb	Perthnasedd y polisi / swyddogaeth cydraddoldeb
Hil	<p>Y Sefyllfa Bresennol: (PLASC 2012) Yn Ysgol Tan y Marian, mae 96% o ddisgyblion yn 'Wyn Prydeinig'. Mae'r 4% sy'n weddill yn 'Wyn ac yn Ddu Caribïaidd'.</p> <p>Dywed data PLASC 2012 bod 58.90%, y mwyafrif o ddisgyblion Ysgol Tan y Marian yn 'Brydeinig'. Mae'r ganran o ddisgyblion 'Cymreig' yn yr ysgol yn 37.50%; a'r 3.60% sy'n weddill yn 'Saeson'.</p> <p>Dywed adroddiad arolwg Estyn Tachwedd 2011 <i>"Mae addoli ar y cyd yn hyrwyddo dealltwriaeth, goddefgarwch a chyfeillgarwch tuag at bob cefndir, hil a chredo. Caiff disgyblion ganllawiau clir i'w galluogi i herio stereoteipio a meddwl am y dewisiadau maent yn eu gwneud."</i></p> <p>Yn seiliedig ar ffigyrau PLASC Ionawr 2012, nid oes unrhyw ddisgybl yn Ysgol Tan y Marian yn bresennol yn cael cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.</p> <p>(Ystadegau Medi) Dros y tair blynedd diwethaf nid yw Ysgol Tan y Marian wedi nodi unrhyw achos o fwlio oherwydd hil.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn darparu cefnogaeth i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf trwy'r fîm Saesneg fel iaith ychwanegol (a ddarparwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych).</p> <p>Mae gan Gonwy ganllawiau a threfn ardderchog yng nghyd-destun "gwrth fwlio", gyda strategau effeithiol i ganfod, ymyrryd a chofnodi achosion o fwlio. Canolbwyntiodd cynhadledd hyfforddi rhagweithiol i gydlynwyr gwrth fwlio ar "weithio efo'n gilydd" i drin materion gwrth fwlio yn y sector cynradd tra bo cynrychiolwyr uwchradd yn canolbwyntio ar e-ddiogelwch, a materion homoffobig ac aflonyddu rhywiol.</p>
Anabledd	<p>Y Sefyllfa Bresennol: (PLASC 2012) Yn bresennol mae 32 o ddisgyblion yn Ysgol Tan y Marian yn cael peth cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae anghenion y disgyblion hyn yn amrywiol ac ymysg y categorïau canlynol: 'Gweithredu Ysgol', 'Gweithredu Ysgol a Mwy' a 'Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig'. O'r 32 disgybl sy'n bresennol yn cael cefnogaeth, mae 24 yn fechgyn a 8 yn ferched.</p>

	<p>Mae gan Ysgol Tan y Marian ganolfan/uned adnoddau ADY ar safle.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan Wasanaeth ADY y Cyngor chwe maes gwasanaeth rhyn-gysylltiedig: y Tîm Cefnogaeth Weinyddol, y Gwasanaeth Synhwyrdd/y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd / athrawon Cwricwlwm Ymgynnwys, y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia), y Gwasanaeth Cymorth Addysgu, Y Gwasanaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistig, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, sy'n ymroddedig i ddatblygu polisiau ac ymarferion sy'n sicrhau cydraddoldeb cyfle a mynediad; diogelu disgyblion sy'n agored i niwed; a chanolbwyntio ar godi cyrhaeddiad i bob dysgwr a chynyddu ymwneud â'u hysgol a'u bro (Ymgynnwys a Cefnogaeth Disgybl). Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i saith ysgol uwchradd, 60 ysgol gynradd, un ysgol arbennig a chwe uned cyfeirio disgyblion.</p>
Rhyw	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Yn bresennol mae 60 o ddisgyblion llawn amser yn Ysgol Tan y Marian, 33 yn fechgyn a 27 yn ferched.</p> <p>Dywed adroddiad Arolwg Estyn Tachwedd 2011 ar draws y meysydd a arsylwyd yn ystod yr arolwg fod y bechgyn a'r merched yn perfformio cystal â'i gilydd.</p> <p>Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio'n well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir wedyn ei gymharu â data a roddir ar lefel sir Gonwy a Chymru gyfan. Yn 2011 roedd perfformiad y bechgyn yn well na'r merched yn CA2 ar lefel ysgol. Roedd bechgyn yn Ysgol Tan y Marian yn perfformio'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol LIC mewn Saesneg, mathemateg a Chymraeg fel ail iaith, gyda gwyddoniaeth ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. I'r gwrthwyneb roedd merched CA2 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y pedwar maes.</p> <p>Strategau Cefnogi: Cedwir golwg ar berfformiad yn ôl rhyw ar lefel pwnc ac mae camau'n cael eu cymryd i symud ymlaen trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg i drin unrhyw ofod, cyfeirio cefnogaeth at y maes pwnc angenrheidiol.</p>
Oed	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae gan Ysgol Tan y Marian 60 o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 – 16 oed.</p>
Crefydd a chredo	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae holl ysgolion Conwy a'u disgyblion yn cynnal addoliad dyddiol, ac mae addysg grefyddol yn cyfri am 5% o amser cwricwlwm i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 - 4.</p>

	<p>Nid yw Tan y Marian yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yn nadansoddiad credo crefyddol disgyblion. Yn Ysgol Tan y Marian, nodir nad oes gan y mwyafrif o ddisgyblion (59%) 'ddim crefydd', gyda 28% yn 'Gristnogion'. Mae'r 13% sy'n weddill yn 'Fethodistiaid', 'Anglicaniaid', 'crefydd arall' neu 'wybodaeth wedi'i wrthod'.</p> <p>Mae adroddiad arolwg Estyn o Dachwedd 2011 yn cadarnhau bod "Yr ysgol yn dilyn rhaglen o addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol iawn i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Fodd bynnag, ni roddir llawer o sylw i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fod â phwyllgor sefydlog (CYSAG) i gadw golwg ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig Add. Gref.</p>
Tueddiad Rhywiol	Amherthnasol
Yr Iaith Gymraeg	Gorffennwyd ' <i>Asesiad Effaith Iaith</i> ' llawn ar gyfer ardal Penmaenrhos.
Arall (nodwch) Cymdeithasol -economaidd	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr '<i>Asesiad Effaith Cymunedol</i>' a wnaed ar gyfer ardal Penmaenrhos.</p> <p>Yn bresennol mae gan 35 o ddisgyblion hawl i brydau am ddim gyda 22 yn cael pryd ysgol am ddim ar ddiwrnod cyfrifiad PLASC.</p> <p>Mae LICC yn gosod ysgolion mewn teuluoedd gan gymryd i ystyriaeth dangoswyr amddifadedd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw golwg a gwerthuso perfformiad ysgol o fewn y teuluoedd hyn er mwyn cyfeirio cefnogaeth yn briodol er lleihau'r bwch amddifadedd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant LICC.</p>

7. Y prif ddata, ymchwil a gwybodaeth rheoli perfformiad.

DATA / GWYBODAETH
Ffurflenni data statudol (e.e. PLASC) Ffurflen Ystadegau Mewnol Medi Data penodol a gasglwyd o ysgolion (e.e. capasiti) Arolygon ESTYN Gwasanaethau eraill Awdurdod Conwy (e.e. Gwasanaethau Rheoli Eiddo ac Asedau (PMAS), Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol)
YMCHWIL NEU WYBODAETH GYM HARU
Mae ymchwil (gan y llywodraeth, awdurdodau eraill, grwpiau annibynnol, cyrff proffesiynol) yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol a meysydd o ymarfer da, sicrhau dull cytbwys. Gellir cael manylion yr ymchwil ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/addysg a dilynwch y ddolen. Mae gwybodaeth gymharol yn cael ei defnyddio yn ystod y cynllun i ddarparu darlun lleol ac awdurdod cyfan.
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL YMGYNGHORIADAU BLAENOROL AC ADBORTH DEFNYDDIWR GWASANAETH
Crynodeb o gyfarfodydd Rhanddeiliad a Enwebwyd Medi a Thachwedd 2009 (Manylion llawn yn Atodiad 5 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy', ar gael ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/addysg , ble ceir cofnodion y cyfarfodydd cyhoeddus hyn.) Yn Awst 2009, cytunodd y Cabinet pan nodwyd ysgolion ar gyfer adolygiad dechreuol, y byddai Cyfarfodydd Rhanddeiliaid Enwebedig yn cael eu cynnal yn yr ardaloedd hynny. Cadeiriwyd y cyfarfodydd gan hwyluswyr annibynnol gyda'r nod o drafod gyda'r trigolion gynnwys y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' yn fanwl, cael barn a gwahodd atebion i broblemau mewn ardaloedd arbennig. Rhwng Medi a Thachwedd 2009, cynhaliwyd 17 cyfarfod rhanddeiliad a enwebwyd ymhob ardal dan adolygiad dechreuol. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniad ar ddatblygiadau hyd yma, cyflwyniad ar ddata ardal arbennig, sesiwn cwestiwn ac ateb a gweithdy ble gofynnwyd cwestiynau penodol i'r rhai oedd yn bresennol. Roedd presenoldeb ymhob cyfarfod yn uchel a chafwyd adborth gwerthfawr. Cyflwynodd rhanddeiliad y farn leol ar gryfderau a meysydd i'w datblygu mewn darpariaeth addysgol. Cafwyd sylwadau ganddynt ar yr adnoddau oedd ar gael mewn ysgolion ac yn lleol, a mynegwyd barn ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol. Cadwyd nodiadau o bob cyfarfod gan Wasanaethau Addysg a'r hwylusydd allanol, gan gynnwys ymateb o weithdai. Cyhoeddwyd y nodiadau hyn ar y wefan Addysg yn niwedd Ionawr 2010.

Mynegodd llawer o randdeiliad fodlonrwydd a'r strwythur presennol y ddarpariaeth, a theimlwyd yn gryf y dylai ysgolion gael eu cadw ble maent. Mynegodd ardaloedd gwledig yn arbennig bod ysgolion gwledig yn hanfodol i fywyd llewyrchus, byw ac wrth ddatblygu a chynnal diwylliant a'r etifeddiaeth Gymreig. Roedd rhanddeiliad ysgolion bach yn ystyried bod eu hysgol yn darparu eu plant â phrofiad addysgol mwy clos a llawn gwobr.

Roedd pob rhanddeiliad yn gwerthfawrogi perfformiad a chymeriad unigol eu hysgol. Teimlai nifer fawr bod unrhyw ddiffygion^(*) a amgyffredwyd mewn adnoddau yn cael eu trin yn ddigonol trwy ansawdd yr addysgu yn eu hysgolion. Roedd eu plant yn hapus i fynychu'r ysgolion ac roedd rhieni yn bryderus y byddai unrhyw newid yn cael effaith niweidiol ar ddysgu eu plant.

Mewn pedwar maes roedd gan randdeiliaid ddiddordeb mewn ymchwilio dewisiadau eraill ar gyfer datblygu a gwella strwythurau ysgol yn eu hardaloedd.

Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn yn y Cynllun Gweithredu - 'Y Dewis a Ddymunir gan yr Ardal'.

8. Pa ymgynghori ac ymwneud gyda'r rhai a effeithiwyd sydd wedi'i wneud eisoes parthed yr wyth grŵp cydraddoldeb ?

Mae pob digwyddiad yn cael cyhoeddusrwydd eang, yn ddwyieithog ac mewn sawl ffurf. Ble'n briodol, mae pob sesiwn gyhoeddus wedi'i gynnal yn ddwyieithog a mynediad i leoliadau'n briodol. Mae dogfennau bob amser ar gael yn ddwyieithog ac mae dogfennau allweddol ar gael ar y wefan ac ar bapur, CD neu brint mawr.

Mae nifer o ddulliau y gall y cyhoedd gysylltu â ni unrhyw bryd i fynegi barn a phryderon.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymgynghori arwyddocaol sydd wedi'i wneud hyd yma. Mae canfyddiadau manylach i'w cael yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy, ar ein tudalennau gwe ynghyd â chofnodion pob cyfarfod cyhoeddus - www.conwy.gov.uk/addysg a dilynwch y ddolen.

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
Ion 2008 - parhau	Tudalennau rhyngwrwyd, e-bost, llythyrau a galwadau ffôn.	Sefydlwyd cyfeiriad e-bost pwrpasol fel y gallai pobl fynegi eu barn. Diweddarir ein tudalennau rhyngwrwyd www.conwy.gov.uk/addysg	Hyd yma rydym wedi cael ymateb trwy 200 o lythyrau, e-bost a galwadau ffôn.
Ion – Maw 2008 Cyfarfodydd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ysgol Glan Conwy ▪ Canolfan Glasdir (Llanrwst) ▪ Ysgol Ffordd Dyffryn 	Hysbysebwyd y cyfarfodydd trwy hysbysebion mewn papurau lleol, Radio Cymru a phosteri mewn llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, derbynfa gyhoeddus y cyngor, ysgolion cynradd,	Mynychwyd y cyfarfodydd gan 536 o bobl, roedd 42% yn staff ysgol neu lywodraethwyr a 38% yn rhieni neu ofalwyr. Roedd yr ymateb yn

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ysgol Glanwydden ▪ Ysgol Llandrillo yn Rhos ▪ Ysgol Cynfran ▪ Ysgol Sant Elfod ▪ Neuadd Goffa Talhaearn ▪ Ysgol Dolgarrog ▪ Ysgol Cerrigydrudion ▪ Ysgol Llanfairfechan 	<p>uwchradd ac arbennig, y rhyngwyd, y fewnwyd, canolfannau blynyddoedd cynnar, canolfannau gwybodaeth plant (gan gynnwys meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae a Chylchoedd Meithrin).</p> <p>Cafwyd cyflwyniad yn nodi'r angen am newid gyda sesiwn cwestiwn ac ateb yn dilyn. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol i ystyried pedwar cwestiwn allweddol i sicrhau cyfle cyson a theg i fynegi barn.</p>	<p>cyfarwyddo Blaenoriaethau Allweddol dogfen <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghoriad ar flaenoriaethau Allweddol Dyfodol Addysg Gynradd'</i>.</p>
<p>Mawrth 2008 Cylchlythyr a holiadur</p>	<p>Anfonwyd dros 20,000 o holiaduron i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bob meithrinfa dydd, grŵp chwarae, Cylchoedd Meithrin a gofalwyr plant, ▪ Pob plentyn yn ysgolion cynradd, ac uwchradd Conwy, ▪ Cadeirydd y llywodraethwyr ▪ Rhyngwyd Conwy ▪ Staff Conwy ▪ Aelodau'r cyngor ▪ Canolfannau hamdden ▪ Llyfrgelloedd cyhoeddus ▪ Derbynfeydd cyhoeddus. 	<p>Pwrpas yr holiadur oed gofyn i'r cyhoedd pa fath o brofiadau dysgu a hoffent i blant/pobl ifanc eu cael yn y dyfodol. Roedd yr holiadur yn agored i holl breswylwyr Conwy.</p> <p>Gofynnodd yr holiadur i'r cyhoedd ystyried pwysigrwydd deg ffactor allweddol ac o'r rhain, pa un y teimlent oedd y pwysicaf.</p> <p style="text-align: center;">7.</p>	<p>Roedd dros 90% o'r ymateb gan rieni, gyda diddordeb, hefyd gan gynghorwyr, llywodraethwyr, busnesau lleol, preswylwyr a staff ysgol.</p> <p>Roedd yr ymateb yn cyfarwyddo Blaenoriaethau Allweddol dogfen <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghoriad ar flaenoriaethau Allweddol Dyfodol Addysg Gynradd'</i>.</p> <p><i>Dadansoddiad llawn yn www.conwy.gov.uk/education</i></p>
<p>4 Mehefin 2008 Cabinet anffurfiol</p>	<p>Cyfarfod o'r Cabinet Anffurfiol.</p>	<p>Trafod gydag aelodau cabinet anffurfiol y ddogfen ddrafft <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Flaenoriaethau Allweddol dyfodol Addysg Gynradd'</i>.</p>	<p>Nodwyd yr argymhellion gan y rheolwraig cynllun a'u cynnwys yn y ddogfen.</p>
<p>23 Mehefin 2008 Prif Drosolwg Conwy a Phwyllgor Craffu</p>	<p>Cyfarfod arbennig o'r Prif Bwyllgor Craffu.</p>	<p>Gofyn i Prif Graffu argymhell i'r Cabinet bod <i>"Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Flaenoriaethau Allweddol dyfodol Addysg Gynradd"</i> yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda phob cartref yng Nghonwy.</p>	<p>PENDERFYNWYD – Aelodau Prif Graffu i argymhell i'r Cabinet bod y ddogfen yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.</p>

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
10 Gorffennaf 2008 Cabinet	Cyfarfod o'r Cabinet.	Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar <i>"Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Flaenoriaethau Allweddol dyfodol Addysg Gynradd"</i> , gyda chartrefi Conwy.	PENDERFYNWYD – Cymeradwyodd y Cabinet y ddogfen ymgynghori gyda chartrefi Conwy.
17 Gorffennaf 2008 Cyngor llawn	Cyfarfod o'r Cyngor llawn.	Gofyn i'r Cyngor Llawn gefnogi <i>"Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Flaenoriaethau Allweddol dyfodol Addysg Gynradd"</i> ,	PENDERFYNWYD – Cefnogi'r ymgynghoriad.
Medi 2008 – Rhagfyr 2008 Ymweliadau ysgol	Ymweliadau safle â phob ysgol gynradd gan y tîm Rheoli Eiddo a Safle Addysg.	Esbonio, trafod a diweddarau'r wybodaeth sydd gan Wasanaethau Addysg ar adeiladau ysgol.	Manylion ar bob adeilad ysgol wedi'i ddiweddarau a phenaethiaid a llywodraethwyr yn cytuno â'r data.
Medi 2008 – Hydref 2008 Ymgynghori ar y ddogfen Blaenoriaethau Allweddol.	Anfonwyd copi o'r ddogfen a holiadur ymateb i bob cartref yng Nghonwy. Hefyd; <ul style="list-style-type: none"> ▪ copi at bob pennaeth cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghonwy, ▪ Cyfarwyddwyr esgobaethol, ▪ AC ac AS lleol ▪ Awdurdodau cyfagos ▪ Amrywiol sefydliadau. 	Amlinellu ein blaenoriaethau drafft allweddol ar gyfer dyfodol ysgolion cynradd Conwy (gweler Adran 4.1 am fanylion pellach). Mae'n disgrifio'r adnoddau addysgol sydd gennym ei eisiau i'n holl blant. Adnoddau y tybiwn y bydd yn gwella profiadau dysgu plant a phobl ifanc a'u darparu ag amgylchedd dysgu mwy cyffrous a deinamig.	Ymatebodd 4% trwy lenwi holiadur ac ymatebodd 22 arall trwy e-bost neu lythyr. Wrth ddisgrifio eu hunain, galwodd 29% o'r rhai a ymatebodd eu hunain fel 'rhieni', gyda'r mwyafrif (60%) yn galw eu hunain yn 'breswylwyr Conwy'. Roedd ymateb i'r holiadur yn cytuno'n derfynol â'r Blaenoriaethau Allweddol. <i>Dadansoddiad llawn ar www.conwy.gov.uk/addysg</i>
10 Tachwedd 2008 Prif Drosolwg Conwy a Phwyllgor Craffu	Cyfarfod arbennig o'r Prif Bwyllgor Craffu.	Eu hysbysu o ganfyddiadau ymgynghoriad ar y ddogfen Prif Flaenoriaethau a gwahodd her.	PENDERFYNWYD – Bod Pwyllgor Prif Trosolwg a Chraffu yn cefnogi Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – <i>Dadansoddiad o 'Ymgynghoriad ar Brif Flaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Addysg Gynradd (Medi 2008)</i> '.
Tachwedd 2008 – Gorffennaf 2009 Datblygu Dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu	Gweithio gyda gwasanaethau ar draws y sir a chynghorwyr lleol.	Cymharwyd pob ysgol â'r safonau a gytunwyd trwy flaenoriaethau allweddol, ac o ganlyniad lluniwyd dogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' a oedd yn nodi ysgolion ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> ▪ adolygiad dechreuol; 	<i>Dogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu'</i> (Gweler adran 3.2 am fanylion pellach) <i>Copi o'r ddogfen ar gael ar</i>

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
		<ul style="list-style-type: none"> adolygiad mewn 2-5 blynedd; ble nad oes rheswm yn bresennol am newid. 	www.conwy.gov.uk/addysg
28 Gorffennaf 2009 Cabinet Anffurfiol	Cyfarfod o'r Cabinet Anffurfiol.	Trafod gydag aelodau cabinet anffurfiol y drafft o <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'</i>	Nodwyd yr argymhellion gan y rheolwraig cynllun a'u cynnwys yn y ddogfen.
4 Awst 2009 Craffu Cwsmer	Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cwsmer.	Gofyn i Graffu Cwsmer argymhell i'r Cabinet bod <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'</i> yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus	PENDERFYNWYD – Aelodau Craffu Cwsmer i argymhell i'r Cabinet bod y ddogfen yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghori.
11 Awst 2009 Cabinet	Cyfarfod o'r Cabinet.	Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar <i>'Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghori ar Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'</i>	PENDERFYNWYD – Cymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad ar y ddogfen a dylai cyfarfodydd gael eu cynnal mewn ardaloedd i gael adolygiad dechreuol.
Medi 2009 – Tachwedd 2009 Ymgynghori ar Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu	Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanddeiliaid ymhob ardal a nodwyd yn y ddogfen i gael adolygiad dechreuol	Cadeiriwyd y cyfarfodydd gan hwyluswyr annibynnol gyda'r nod o drafod gydag ardaloedd gynnwys y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' yn fanwl, gan ofyn am eu barn ac atebion i faterion mewn meysydd arbennig.	Roedd y canfyddiadau'n cyfarwyddo <i>'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'</i> a'r <i>'Cynllun Gweithredu'</i> cysylltiedig <i>Gweler adran 3. Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' am fanylion pellach.</i>
14 Mehefin 2010 - 10 Medi 2010 Ymgynghori ar <i>'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'</i> (a'r <i>'Cynllun Gweithredu'</i> cysylltiedig).	Roedd y Strategaeth ynghyd â'r holiadur ar gael ar y rhyngwrwyd, gyda hysbysebion yn y wasg wedi'u hanelu at randdeiliad. Cynhaliwyd sesiynau cwestiwn ac ateb ar y Strategaeth yn Llandudno, Abergele, Pentrefoelas,	<ul style="list-style-type: none"> Esbonio pam fod angen moderneiddio ein hysgolion. Dangos sut mae ardaloedd wedi siapio ein gweledigaeth. Disgrifio ein gweledigaeth o ysgolion cynradd yn y 21 ganrif. Esbonio y bydd newidiadau arfaethedig yn cael eu trafod yn fanwl gydag ardaloedd. Esbonio amserlen newid dros y 15 mlynedd nesaf hyd 2025. 	Daeth y mwyafrif o'r ymateb o du allan i'r holiadur a ddarparwyd. Roedd yr holl ymateb a gafwyd ar gael i aelodau'r Cyngor. Newidiwyd y Strategaeth a Chynllun Gweithredu cysylltiedig o ganlyniad i'r ymateb.

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
	Llanrwst a Bae Colwyn		
19 Hydref 2010 Craffu Cwsmer	Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cwsmer.	Argymhelliad 1 Bod aelodau'n mabwysiadu'n ffurfiol ' <i>Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy</i> '.	PENDERFYNWYD – Aelodau'r Pwyllgor Craffu i gefnogi argymhellion i'r Cabinet.
26 Hydref 2010 Cabinet	Cyfarfod o'r Cabinet.	Argymhelliad 2 Bod aelodau'n cymeradwyo bod swyddogion Conwy yn i] ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau yn y Cynllun Gweithredu drafft a ii] chynnal cyfarfodydd rhanddeiliad gyda'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer ' <i>adolygiad ymhen dwy flynedd</i> '.	PENDERFYNWYD – Cytunodd y Cabinet i fabwysiadu'n ffurfiol Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy. Cytunodd y Cabinet hefyd i: i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y Cynllun Gweithredu a ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliad gyda'r ardaloedd hynny nodwyd ar gyfer ' <i>adolygiad mewn dwy flynedd</i> '.
Mawrth 2011	Gweithdy Plant (BI4) Ysgol Cyffordd Llandudno	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyflwyno i ddisgyblion y dewisiadau ar gyfer eu hysgol, ac i bob ysgol, beth fydd yn ei olygu iddynt hwy. ▪ Gofyn i ddisgyblion am eu barn ar y dewisiadau ar gyfer eu hysgol – pa un maent yn ei hoffi orau. 	Y farn gyffredinol, gan gymryd i ystyriaeth barn Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed, oedd bod y plant yn dymuno i bethau 'Aros yr un fath'.
Mehffin 2011	Cyfarfodydd ymgynghori cymunedol (Ardal Cyffordd Llandudno)	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhannu canlyniadau gwerthusiad dewis Cyffordd Llandudno ac asesuadau effaith cysylltiedig gyda'r ysgolion, llywodraethwyr, rhieni, aelodau lleol, busnesau lleol. 	Cafwyd rhywfaint o adborth yn y cyfarfodydd ac roedd mwyafrif y rhai oedd yn bresennol yn hapus gyda chanlyniadau'r gwerthusiad dewisiadau.
20 Medi 2011	Cyfarfod o bwyllgor craffu cwsmer	Argymhelliad 1 Bod Dewis 1a a 2a (Albini House) yn cael ei gymeradwyo fel y dewis cytunedig i'w symud ymlaen (pan fo'r cyllid angenrheidiol yn dod ar gael) ar gyfer Ardal Cyffordd Llandudno. Argymhelliad 2	PENDERFYNWYD:- Bod y Pwyllgor Trosolwg Cwsmer a'r Pwyllgor Craffu yn argymhell y canlynol i'r Cabinet: (a) Bod Dewis 1a a 2a (Albini House) yn cael ei gymeradwyo fel y dewis

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
		<p>Fod y Cabinet yn gwneud penderfyniad ynghylch amseru caffael unrhyw dir ar gyfer yr opsiwn a ddewiswyd.</p> <p>Argymhelliad 3 Fod Dewis 1b a 2b (Esgyryn), Dewis 3 ac yna Dewis 4 yn cael eu cymeradwyo fel dewisiadau wrth gefn (yn y drefn hon) pe na bai Dewis 1a a 2a yn bosib.</p> <p>Argymhelliad 4 Fod y newidiadau arfaethedig i'r bandiau ymgynghori a'r amserlenni yn y cynllun gweithredu (<i>Atodiad D</i>) yn cael eu cymeradwyo.</p>	<p>cytunedig i'w symud ymlaen (pan fo'r cyllid angenrheidiol yn dod ar gael) ar gyfer Ardal Cyffordd Llandudno.</p> <p>(b) Fod y Cabinet yn gwneud penderfyniad ynghylch amseru caffael unrhyw dir ar gyfer yr opsiwn a ddewiswyd.</p> <p>(c) Fod y Gwasanaethau Addysg yn ail-ymgyngori gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill ar Ddewisiadau 1b a 2b (Esgyryn), Dewis 3 a Dewis 4, os na fydd Dewis 1a a 2a (Albini House) ar gael cyn 2014 a bydd angen cyflwyno dewis arall fel rhan o gais am grant cyfalaf i Lywodraeth Cymru.</p> <p>(d) Fod y newidiadau arfaethedig i'r bandiau ymgynghori ac amserlenni yn y cynllun gweithredu (<i>Atodiad D</i> o adroddiad y pwyllgor) yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar oedi ac adolygu bob ardal a'u bandiau ymgynghori.</p>
27 Medi 2011	Cyfarfod o'r Cabinet	Argymhellion fel yr uchod, ac eithrio 'Argymhelliad 4' sydd wedi ei hepgor yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Craffu Cwsmer i 'oedi ac adolygu' bob ardal a'u bandiau ymgynghori.'	<p>PENDERFYNWYD- Cabinet</p> <p>(a) Bod Dewis 1a a 2a (Albini House) yn cael ei gymeradwyo fel y dewis cytunedig i'w symud ymlaen (pan fo'r cyllid angenrheidiol yn dod ar gael) ar gyfer Ardal Cyffordd Llandudno.</p> <p>(b) Nad oes penderfyniad i'w gymryd ar hyn o bryd ynglŷn â chaffael tir ar gyfer yr opsiwn a</p>

Digwyddiad	Lleoliad /Sut	Pwrpas	Canlyniad
			<p>ddewiswyd.</p> <p>(c) Fod y Gwasanaethau Addysg yn ail-ymgyngori gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill ar Ddewisiadau 1b a 2b (Esgyryn), Dewis 3 a Dewis 4, os na fydd Dewis 1a a 2a (Albini House) ar gael cyn 2014 a bydd angen cyflwyno dewis arall fel rhan o gais am grant cyfalaf i Lywodraeth Cymru.</p>
8 Tachwedd 2011	Cyfarfod o'r Cabinet	Cael cymeradwyaeth ar gyfer amserlen ymgynghori 'Cynllun gweithredu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' a'r 'Rhaglen Amlinellol Strategol' sydd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.	PENDERFYNWYD: Fod amserlen ymgynghori 'Cynllun gweithredu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' yn cael ei chymeradwyo a bod y Rhaglen Amlinellol Strategol yn cael ei diwygio fel nodir yn adroddiad y pwyllgor a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 18 Tachwedd 2011.
21 Mehefin 2012	Ysgol Penmaenrhos – gweithdai plant (blwyddyn 2 a 4)	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhannu gyda'r disgyblion y dewisiadau ar gyfer eu hysgol ac ar gyfer bob dewis, beth fydd yn ei olygu iddynt hwy. ▪ Gofyn i'r disgyblion am eu barn ar y dewisiadau gorau ar gyfer eu hysgol – pa un sydd orau ganddynt. 	Y canlyniadau cyffredinol gan gymryd ystyriaeth o'r safbwyntiau yn Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian oedd bod yn well gan y plant 'Ymuno'.

9. Beth yw effaith y cynllun ar y gymdeithas / grwpiau cydraddoldeb?

<p>HIL / ETHNIGRWYDD Mae deddfwriaeth genedlaethol yn penderfynu'r polisïau derbyniadau mae'n rhaid i ysgolion i'w gweithredu ac ni allant wahaniaethu ar sail hil neu ethnigrwydd. Nid oes problemau.</p>	<p>Grwpiau BME sipsiwn / teithwyr</p>
<p>RHYW Mae pob ysgol yn gydaddysgol ac ni fyddai unrhyw ddewisiadau fyddai'n cael eu hystyried yn newid y trefniadau hyn. Nid oes problemau.</p>	<p>Dynion Merched Traws genedl Materion rhyw LGB</p>
<p>OED Nid yw gyrwyr y cynllun yn ymwneud ag oed, nag unrhyw ddewis sydd i'w ystyried. Nid oes problemau.</p>	<p>Pobl hŷn plant pobl ifanc</p>
<p>ANABLEDD Mae mynediad i ysgolion o dan ddewisiadau arfaethedig yn cael eu hystyried fel rhan o Werthusiad Dewis Strwythurol EDS. Ni fyddai cael cefnogaeth AAA yn newid y dewisiadau sy'n cael eu hystyried.</p>	<p>Symudedd Medrusrwydd Dall / Nam golwg lechyd Meddwl Anabledd</p>
<p>CREFYDD A CHREDO Nid yw'r un ysgolion yn ysgolion enwadol. Nid oes problemau.</p>	<p>Enwadau</p>
<p>TUEDDIAD RHYWIOL Mae deddfwriaeth genedlaethol yn penderfynu polisïau derbyn ac ni allant wahaniaethu ynghylch tueddiad rhywiol. Nid oes problemau.</p>	<p>Hoyw Lesbiaidd Deu rywiol Heterorywiol</p>
<p>HAWLIAU DYNOL Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 - 16 oed – ni fydd yr hawl hwn yn cael ei effeithio gan y dewisiadau sy'n cael eu hystyried. Mae'r Awdurdod yn cydnabod rhan hanfodol ysgolion gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgolion gwledig o fewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol a datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi. Nid oes problemau.</p>	<p>Hawl i Addysg, Bywyd Preifat a Theulu, Amddiffyn eiddo</p>

ARDALOEDD CYMRAEG EU HIAITH

Mae Asesiad Effaith Llawn yn cael ei gynnal ymhob ardal fel rhan o'r cynllun hwn.

Canlyniad yr Asesiad Effaith iaith Gymraeg (adran 3) yw:

- Dewis 1 a 2 - Ysgol ardal ar safle (newydd) +3 Cadarnhaol
- Dewis 3 – Cynnal yr ysgol bresennol Diduedd
- Dewis 4 - Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli Diduedd

Argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod ysgol ardal ar un safle (Dewis 1 a 2) yn cael ei ystyried fel y ffordd orau o warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

CAM 3 - CAFFAELIAD A PHARTNERIAETH

10. A yw'r cynllun hwn yn cael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ? Os ydy, beth ydych wedi'i wneud i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg. Bydd angen i chi feddwl am :

Pwrcasu

- Tendre a manylion
- Y drefn gwobrau a chymalau cytundeb
- Camau perfformiad a chadw golwg
- Contractwyr yn defnyddio deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol ac iaith Gymraeg

Partneriaeth

- Cadw golwg ar gydraddoldeb
- Perthnasedd cydraddoldeb ac asesiad effaith cynlluniau neu gynnig

Partneriaid yn defnyddio deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol ac iaith Gymraeg

Gweithrediad Strategol:

[i] Cynnal asesiad effaith llawn ymhob ardal dan adolygiad dechreuol (dros bedair blynedd), cyn cynnal cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol i gyflwyno dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal. Bydd y gwerthusiad dewis hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i benderfynu pa ddewis i fynd ymlaen ag ef a'i weithredu ymhob ardal/ysgol (yn ôl band y cynllun).

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gwneud newid yn strwythur ardal, bydd hyn yn symud yr ardal i Gam 3:

Gweithredu Gweithredol (Rheoli Prosiect 21 ganrif)

[i] i sicrhau arian cyfalaf trwy raglen Ysgolion 21 Ganrif LICC a rhaglen cyfalaf Conwy.

[ii] ble mae angen newid strwythurol, gweithredu dewisiadau a gymeradwywyd gan y Cabinet ar gyfer pob ardal (Cam 2 [i]), fel mae arian yn ei ganiatáu.

CAM 4 – ASESU EFFAITH

Sylwer – Yn yr adran hon dylid defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i gasglu i asesu a yw'n debygol y bydd gwahanol effaith i rai grwpiau neu ardaloedd, ac os hynny, penderfynu a yw hyn yn gyfreithiol neu beidio.

11. A oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd uwch neu is neu fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth gan unrhyw grŵp, ac os felly, sut mae ei esbonio ?

Dim patrymau arwyddocaol o ddefnyddio neu fodlonrwydd yn cael eu datgelu a gysylltwyd ag unrhyw grŵp penodol neu'r ardal fel cyfanrwydd. Fodd bynnag, o fewn dalgylch cyfan Penmaenrhos dim ond 30.7% o ddisgyblion sy'n dewis mynychu eu hysgolion lleol a ellir ei weld fel diffyg cefnogaeth gan y gymuned.

12. A yw daearyddiaeth neu ddemograffeg y defnyddwyr gwasanaeth yn datgelu unrhyw beth ?

Mae dadansoddiad o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol yn ardal Penmaenrhos yn dangos bod symudiad arwyddocaol ar draws dalgylch yr ysgolion am resymau heb law ffydd nac iaith - nid yw plant lleol bob amser yn dewis eu hysgol leol.

Yn Ysgol Babanod, dengys ystadegau fod 6% o ddisgyblion yn mynychu o du allan i'r dalgylch, 30% o blant yn y dalgylch yn dewis mynychu Babanod fel eu hysgol leol gyda 10% arall yn mynychu'r ysgol ffydd neu iaith agosaf a 60% yn peidio â mynychu eu hysgolion lleol am resymau anhysbys.

Yn Ysgol Tan y Marian, dengys ystadegau fod 13% yn mynychu o du allan i'r dalgylch, 31% o blant yn mynychu o du mewn i'r dalgylch, 13% yn mynychu eu hysgol iaith neu ffydd agosaf gyda 56% arall yn peidio â mynychu eu hysgol leol am resymau anhysbys.

Tra bo'r ALI yn gallu ymgynghori'n uniongyrchol â phenaethiaid i gadw golwg ar dderbyniadau, mae'n aneglur pam nad yw cymaint o rieni yn dewis eu hysgol leol. Bydd y tîm yn ystyried cysylltu â rhieni i ganfod y rhesymau am eu dewis a defnyddio'r canfyddiadau hyn i gyfeirio cynlluniau'r dyfodol.

13. A yw unrhyw un o'r rheolau neu'r modd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn atal neu leihau'r tebygolrwydd o unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael gwasanaeth neu greu unrhyw rwystrau eraill iddynt?

h.y. oherwydd incwm cyfyng, lleoliad, yr amser o'r dydd pan fydd gwasanaethau ar gael, mynediad i adeiladau, cael gwasanaeth cyfieithu, rheolau hawl, cod gwisgo, rhesymau diwylliannol

- AE Cymunedol

Mae nifer tebyg o grwpiau yn defnyddio'r cyfleusterau yn y ddwy ysgol gydag Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnig darpariaeth ddyddiol ar gyfer y Grŵp Chwarae a Dechrau'n Deg. Ymddengys Ysgol Tan y Marian i gynnig mwy o weithgareddau wythnosol megis pedwar clwb ar ôl ysgol.

Mae Ysgol Tan y Marian wedi dangos eu bod yn defnyddio'r Ganolfan Gymunedol ar safle at ddefnydd yr ysgol. Nid oes rheswm i ddisgwyl i hyn newid gyda darpariaeth newydd. Mae'r ganolfan ar gael i'r gymuned gyfan bob amser ac nid dim ond i'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r ddwy ysgol yn darparu ystod o weithgareddau, yr un ohonynt angen cyfleusterau arbenigol. Rhagwelir y gellir darparu ystod debyg neu ehangach o weithgareddau mewn unrhyw ysgol yn y dyfodol gan weithio fel Ysgol Fro.

- AE Iaith

Mae'r ddwy ysgol mewn ardal ble siaradir Saesneg yn bennaf a bydd Saesneg yn parhau fel y prif gyfrwng addysgu a chyfathrebu yn yr ysgol a rhwng yr ysgol a'r cartref.

Nodwyd camau i ddatblygu'r ymarfer da sy'n bodoli wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig ac fe'u nodwyd fel argymhellion yn yr adroddiad hwn. Cyflawnir hyn trwy ymgorffori Dimensiwn Cymreig wrth gynllunio'r cwricwlwm er mwyn i ddisgyblion gael ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.

- AE Cludiant

Gan y bydd y dalgyrch yn aros yr un fath gyda bob dewis, nid yw'r pellter o'r man pellaf i'r safleoedd ysgol sy'n bodoli yn fwy na dwy filltir.

O ran amser teithio nid oes unrhyw newid i drefniadau presennol nac amser teithio ar gyfer dewis 2 a 3. Fodd bynnag yn achos dewis 1, mae 10 teulu ar hyn o bryd sydd â phlant yn mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos sydd â brodyr neu chwirydd yn Ysgol Tan y Marian. Mae hyn yn debygol o gynyddu i 14 teulu yn y flwyddyn academaidd nesaf. Byddai un ysgol gyfunol ar safle Ysgol Tan y Marian yn lleihau amseroedd teithio i rieni sydd â phlant yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd a byddai'n golygu rhywfaint o welliant.

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon ?

Ydy

Na

Ansicr

(rhowch gylch)

Os Ydy neu Ddim yn Siŵr, yw eich ateb, nodwch i ba grŵp(iau) y bydd yn berthnasol, ac esbonio pam os yn bosibl

Maes cydraddoldeb	
Hil	
Rhyw	
Oed	
Anabledd	
Crefydd/Credo	
Tueddiad Rhywiol	
Hawliau Dynol	
Yr Iaith Gymraeg	
Arall (nodwch)	

14a. Os Na, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn creu effaith gwahaniaethol ar rai grwpiau ?

Ydy

Na

Ddim yn siŵr

(rhowch gylch)

--

15. A oes gennych ddigon o wybodaeth i lunio barn ddysgedig ?

Oes

Na

(rhowch gylch)

Os Oes, cyfiawnhewch

Asesiadau effaith llawn wedi'i gynnal sy'n cefnogi canfyddiadau'r adroddiad.

Os Na, yw'r ateb, pa wybodaeth sydd ei angen ar gyfer rhai grwpiau neu gymunedau cydraddoldeb ?

16. A yw'n bosibl cael yr wybodaeth yn gyflym a rhwydd, neu a ddylai casglu data gael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu ? Rhowch fanylion isod.

Bydd casglu data yn llunio rhan o Becyn Gwaith Setiau Data sy'n cynnwys casglu data ar draws yr holl brosiect.

CAM 5 – TRIN EFFAITH NIWEIDIOL NEU ANGHYFREITHLON A CHRYFHAU POLISI NEU SWYDDOGAETH - Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw gamau i leihau neu gael gwared ag unrhyw effaith niweidiol. Dylech hefyd ymchwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod a / neu ddulliau amgen o gyflwyno gwasanaeth i gyfarfod anghenion gwahanol grwpiau.

17. Pa gamau fyddai'n trin unrhyw anfantais ac yn hyrwyddo cymdeithas dda, perthynas dda a dod â phobl at ei gilydd ?

Trin yr anfantais	Bydd gweithredu penodol i leihau a thrin effaith negyddol fel y nodwyd yn yr amrywiol asesiadau effaith, yn cael ei symud ymlaen fel bo'n briodol trwy Gam 3, ar ôl penderfyniad y Cabinet ar gyfer y dewis gorau ar gyfer yr ardal.
Hyrwyddo perthynas dda a dod â chymdeithas at ei gilydd	Bydd Awdurdod Conwy yn parhau i ymwneud ac ymgynghori â rhanddeiliad trwy'r prosiect i sicrhau bod anghenion ardaloedd yn cael eu cydbwyso.

18. Beth ellir ei wneud i wella'r polisi, gwasanaeth neu gynnig er mwyn lleihau neu gael gwared ag unrhyw effaith niweidiol neu'r effeithiau a ganfuwyd ?

Gweler cwestiwn 17 uchod

CAM 6 - PENDERFYNU FYND YMLAEN - Yn yr adran hon byddwch yn gwneud penderfyniad i fynd ymlaen â'r polisi, gwasanaeth neu swyddogaeth yn eu ffurf bresennol, mewn ffurf adolygedig neu beidio.

19. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yng nghamau 1 - 5, a ydych mewn sefyllfa i barhau â'r polisi, gwasanaeth neu swyddogaeth ?

(rhowch gylch fel bo'n briodol)

Ydym	Parhau â'r polisi yn ei ffurf bresennol	Cwblhau'r Cadw Golwg ac Adolygu (Adran 8) i sicrhau y cedwir golwg ar y canlyniadau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
Ydym	Parhau gyda'r polisi ond gyda diwygiadau i gael gwared ag unrhyw feysydd o effaith niweidiol	Cwblhau'r Cynllun Gweithredu i drin unrhyw faes o effaith niweidiol a Chadw Golwg ac Adolygu (Adran 8) i asesu effaith yn barhaus
Na	Rhoi'r gorau i'r polisi gan nad yw'n bosibl i drin effaith niweidiol, ac ystyried dulliau eraill o drin y mater	Cwblhau'r Cynllun Gweithredu i drin unrhyw faterion yn deillio o roi'r gorau i'r polisi a thrin unrhyw effaith niweidiol a ganfuwyd

Penderfyniad Cabinet Conwy, a fydd yn ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd gan gynnwys yr adroddiad hwn.

CAM 7 – CYNLLUNIO GWEITHREDOL -

Gweithredu penodol i leihau a thrin effaith negyddol, fel y nodwyd o fewn amrywiol asesiadau effaith, yn cael ei symud ymlaen fel yn briodol trwy gam 3, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar gyfer y dewis gorau ar gyfer yr ardal.

Os ydych yn bwriadu cynnal ymgynghoriad i gadarnhau eich canfyddiadau yn yr asesiad hwn neu gael barn neu adborth fel rhan o'ch cynllun gweithredu, â phwy rydych yn mynd i ymgynghori â hwy a sut ?

Cyflwyno copi o Aseiad Effaith Cydraddoldeb i Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol Conwy ac Ysgolion Conwy yn ardal Penmaenrhos cyn ei ryddhau i'r cyhoedd, ac i grwpiau penodol nodwyd yn y tabl isod. Bydd pob aseiad effaith ar gael i gefnogi'r gwerthusiad dewis gyffredinol sydd i'w gyflwyno i randdeiliad ardal Penmaenrhos yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus.

Hil	
Anabledd	Cyflwyno copi o Aseiad Effaith Cydraddoldeb i Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy cyn ei ryddhau i'r cyhoedd.
Rhyw	
Oed	
Crefydd a Chredo	Cyflwyno copi o Aseiad Effaith cydraddoldeb i Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy cyn ei ryddhau i'r cyhoedd.
Tueddiad Rhywiol	
Yr Iaith Gymraeg	Cyflwyno copi o Aseiad Effaith Iaith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith cyn ei ryddhau i'r cyhoedd.
Hawliau Dynol	
Arall (nodwch)	

CAM 8 – TREFNIADAU CADW GOLWG AC ADOLYGU

Nodwch isod y trefniadau ar gyfer cadw golwg ac adolygu'r polisi neu swyddogaeth yn y dyfodol

Gweithredu a Gytunwyd	Trefniadau Cadw Golwg ac Adolygu	Cyfnod amser	Cyfrifoldeb Arwain	Ychwanegwyd at y Cynllun Gweithredol etc
Ail edrych ar yr asesiad effaith ar ôl y penderfyniad gan Gabinet Conwy ar y dewis gorau o fynd ag o ymlaen ar gyfer ardal Penmaenrhos	Y rheolwr i symud ymlaen â'r gweithredu priodol i leihau o fewn yr asesiadau effaith unigol mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet.	Ar ôl Medi 2012	Damian Hughes <i>Rheolwr y Cynllun</i>	